**Dinas a Sir Abertawe**

**Hysbysiad o Gyfarfod**

Fe'ch gwahoddir i gyfarfod

# Pwyllgor Datblygu Polisi Pobl

**Lleoliad:** **Ystafell Bwyllgor 5 - Neuadd y Ddinas, Abertawe**

**Dyddiad:** **Dydd Mercher, 20 Mehefin 2018**

**Amser:** **4.00 pm**

**Cadeirydd:** **Cynghorydd Ceri Evans**

**Aelodaeth:**
Cynghorwyr: C Anderson, S J Gallagher, P R Hood-Williams, E T Kirchner, M B Lewis, S Pritchard, C Richards, M Sykes a/ac G J Tanner

---

**Agenda**

**Rhif y Dudalen.**


| | | |
|---|---|---|
| 1 | **Ymddiheuriadau am absenoldeb.** | |
| 2 | **Derbyn datgeliadau o fuddiannau personol a rhagfarnol.** www.abertawe.gov.uk/DatgeliadauBuddiannau | |
| 3 | **Cofnodion:** Cymeradwyo a llofnodi, fel cofnod cywir, gofnodion y cyfarfod blaenorol a nodi cofnodion y Pwyllgor Datblygu polisi diogelu blaenorol. | 1 - 4 |
| 4 | **Cylch Gorchwyl. (Er gwybodaeth.)** | 5 - 6 |
| 5 | **Cynllun Gwaith 2018-2019 (Drafodaeth).** | |


**Cyfarfod Nesaf:** Dydd Mercher, 18 Gorffennaf 2018 ar 4.00 pm

Huw Evans

**Huw Evans**
**Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd**
**Dydd Mercher, 13 Mehefin 2018**

**Cyswllt: Gwasanaethau Democrataidd - (01792) 636923**

**Dinas a Sir Abertawe**

# Cofnodion Cyfarfod y Pwyllgor Datblygu a Chyflwyno Polisi Lleihau Tlodi

**Ystafell Bwyllgor 5 - Neuadd y Ddinas, Abertawe**

**Dydd Mercher, 25 Ebrill 2018 am 4.00 pm**

**Yn Bresennol**: Y Cynghorydd P B Smith (Cadeirydd) oedd yn llywyddu

| **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** |
|---|---|---|
| D W Helliwell | P K Jones | L R Jones |
| A Pugh | C Richards | L V Walton |

**Swyddog(ion)**

| | |
|---|---|
| Allison Lowe | Swyddog y Gwasanaethau Democrataidd |
| Rachel Moxey | Pennaeth Tlodi a'i Atal |
| Steve Porter | Rheolwr Gweithrediadau Tai |
| Sandie Richards | Prif Gyfreithiwr |
| Chris Sivers | Cyfarwyddwr Pobl |

**Ymddiheuriadau am absenoldeb**
Y Cynghorydd(wyr): B Hopkins

---

**51 Datgeliadau o fuddiannau personol a rhagfarnol.**

Yn unol â'r Côd Ymddygiad a fabwysiadwyd gan Ddinas a Sir Abertawe, datganwyd y cysylltiadau canlynol:

Datganodd y Cynghorydd C Richards gysylltiad personol â chofnod rhif 54 – Cynllun Gwaith ar gyfer 2018/19 – Llywodraethwr Ysgol Gyfun Penyrheol.

**52 Cofnodion.**

**Penderfynwyd** cymeradwyo a llofnodi cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Datblygu a Chyflwyno Polisi Lleihau Tlodi a gynhaliwyd ar 28 Mawrth 2018 fel cofnod cywir.

**53 Digartrefedd.**

Rhoddodd Steve Porter, Rheolwr Gweithrediadau Tai, gyflwyniad ar gynllun Tai'n Gyntaf.

Yn dilyn cais yn y cyfarfod diwethaf, rhannwyd 2 ddogfen ag aelodau'r pwyllgor a chawsant eu cynnwys yn y pecyn agenda hefyd:

- Tai'n Gyntaf – atebion ar gyfer cysgu ar y stryd a digartrefedd a arweinir gan dai (wedi'i lunio gan y Ganolfan dros Gyfiawnder Cymdeithasol);

- Tai'n Gyntaf (HF) – Egwyddorion ac Arweiniad Cenedlaethol ar gyfer Cymru.

Esboniodd y Rheolwr Gweithrediadau Tai gefndir Tai'n Gyntaf (HF), pam y dylai'r awdurdod lleol ei ystyried, ei fanteision, gan gynnwys yr heriau sy'n gysylltiedig, a sut gellid ei ddatblygu yn Abertawe.

Roedd sylwadau gan y pwyllgor yn cynnwys:

- Pryder am sut byddai cymunedau'n ymateb i gael pobl ddigartref yn eu hardaloedd, fodd bynnag mae'r mwyafrif o gymunedau'n tueddu i "ofalu am eu pobl eu hunain";
- Mae defnyddio cynllun HF yn golygu bod yr angen yn cael ei ledaenu ar draws y ddinas yn hytrach na bod yn yr un lle;
- Cydnabuwyd na fyddai'n addas i bawb sydd mewn angen, ond o leiaf byddai'r rheiny sydd yn manteisio ar y cynllun yn cael eu lletya mewn ardal maent yn ei dewis yn hytrach nag un sy'n cael ei dewis iddyn nhw neu orfod mynd i hostel;
- Bydd angen i dimau iechyd meddwl chwarae rôl bwysig yn y gwaith partneriaeth y bydd angen ymgymryd ag ef;
- Mae angen rhoi'r holl egwyddorion ar waith er mwyn iddo weithio;
- Gall fod yn anos i HF weithio ar gyfer pobl ifanc;
- Mae angen hefyd ymagwedd ar y cyd ar gyfer y rhai sy'n gadael gofal;
- Bydd angen i gynghorwyr lleol gael y diweddaraf lle bo'n bosib - gan ystyried y rheolau GDPR newydd;
- Mae gwaith da yn mynd rhagddo o hyd gyda'r Uned Hawliau Lles mewn perthynas â Chredyd Cynhwysol;
- Cyhoeddwyd newidiadau i gefnogaeth llog morgeisi'n ddiweddar – sut byddai hyn yn effeithio ar y cynllun?
- Mae angen sicrhau y nodir y “bobl ddigartref gudd” hefyd, gan gynnwys pobl ifanc sy'n aros ar soffas cyfeillion;
- A fyddai'r cyllid gan LIC yn ddigon ar gyfer y cynllun? Oddeutu £12,000 y flwyddyn i letya person gan ddefnyddio cynllun HF.

**Penderfynwyd** y dylid nodi'r cyflwyniad.

## 54 Cynllun Gwaith ar gyfer 2018/19. (Llafar)

Trafododd y pwyllgor y gwaith yr ymgymerwyd ag ef yn ystod blwyddyn ddinesig 2017-2018.

Awgrymwyd bod angen mynd i'r afael â'r materion hyn o hyd – cost gwisg ysgol, prydau ysgol am ddim, banciau bwyd a chyflogau isel yng Nghymru i deuluoedd sy'n gweithio sy'n arwain at bobl dlawd sy'n gweithio. O ystyried y materion hyn, hoffai'r pwyllgor argymell bod y pwyllgor yn ystyried "Pobl Dlawd sy'n Gweithio" fel thema ar gyfer Cynllun Gwaith 2018/19.

**Penderfynwyd** y byddai "Pobl Dlawd sy'n Gweithio" yn cael ei argymell fel thema ar gyfer pwyllgor y dyfodol yn 2018/19.

Daeth y cyfarfod I ben am 5.20 pm

**Cadeirydd**

**Dinas a Sir Abertawe**

## Cofnodion Cyfarfod y Pwyllgor Datblygu Polisi Pobl

**Siambr y Cyngor - Neuadd y Ddinas, Abertawe**

**Dydd Iau, 24 Mai 2018 am 4.48 pm**

**Yn Bresennol**:

| **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** |
|---|---|---|
| C Anderson | C R Evans | S J Gallagher |
| P R Hood-Williams | E T Kirchner | M B Lewis |
| S Pritchard | C Richards | M Sykes |
| G J Tanner | | |

**Ymddiheuriadau am absenoldeb**
Y Cynghorydd(wyr): Dim

---

**1 Atal Rheol 2 Gweithdrefn y Cyngor "Cadeirydd Cyfarfodydd" er mwyn galluogi'r Aelod Llywyddol i lywyddu dros yr eitemau a nodir ar yr agenda.**

**Penderfynwyd** gohirio Rheol 12 y Weithdrefn i ganiatáu i'r Aelod Llywyddol lywyddu dros y cyfarfod hwn.

**(Bu'r Cynghorydd D W W Thomas yn llywyddu)**

**2 Ethol Cadeirydd ar gyfer Blwyddyn Ddinesig 2018 - 2019.**

**Penderfynwyd** ethol y Cynghorydd C R Evans yn Gadeirydd ar gyfer blwyddyn ddinesig 2018-2019.

**(Bu'r Cynghorydd C R Evans yn llywyddu)**

**3 Ethol Is-gadeirydd ar gyfer Blwyddyn Ddinesig 2018 - 2019.**

**Penderfynwyd** ethol y Cynghorydd S Pritchard yn Is-gadeirydd ar gyfer blwyddyn ddinesig 2018-2019.

**4 Derbyn datgeliadau o fuddiannau personol a rhagfarnol.**

Yn unol â'r Côd Ymddygiad a fabwysiadwyd gan Ddinas a Sir Abertawe, ni ddatganwyd unrhyw gysylltiadau.

Daeth y cyfarfod I ben am 4.49 pm

**Cadeirydd**

**Policy Development Committees (PDCs) - Terms of Reference**

There are 5 Committees:

1) Education Improvement;
2) Economy & Infrastructure;
3) People Service;
4) Poverty Reduction;
5) Future Council.

**Purpose:**

The PDCs are committees of Council with the purpose of development of the Council's Corporate Policies for consideration and adoption by Cabinet and / or Council as appropriate.

**Membership & Frequency of Meetings:**

1) Non-Executive Members are eligible to be members of the PDCs;
2) Executive (Cabinet) Members are **not** eligible to be members of the PDC's;
3) Frequency of meetings is a matter for the Chair depending on workload; however, it is anticipated that formal Committee meetings shall be held monthly or as dictated by the work plan. In addition to formal Committee meetings, Informal Working Groups may be undertaken, if the work plan dictates;
4) Chairs of the PDCs will meet to co-ordinate agendas and work plans to ensure consistency and that there is no duplication in work.

**Role and Framework:**

The role of the PDC is to:

1) Have a work plan shared with the relevant Cabinet Member;

2) Focus on policy development & delivery by in depth analysis of policy issues and consider future policy development with reference to the Corporate Plan;

3) Make a report and/or recommendation to the Cabinet Member / Cabinet / Council in connection with work undertaken;

4) Consider mechanisms to encourage and enhance public participation in development of policy and policy options;

5) Work with Senior Officers in a Team Swansea approach to deliver key corporate priorities; and

6) Consider and where appropriate to invite relevant organisations / individuals to contribute to policy development discussions.

**Relationship with Scrutiny:**

1) The role of the PDC is distinct from the Council's scrutiny function of holding to account, questioning and challenging proposed decisions, monitoring the performance of services, and tackling issues of concern thorough inquiries or one-off meetings (which may relate to a broad range of policy / service areas).

2) PDCs may refer any issues arising out of their role to the Scrutiny Programme Committee for further consideration / investigation and vice-versa.

3) The PDC Chair will also consider whether any matter under consideration should be referred to the Scrutiny Programme Committee.

4) PDCs and the Scrutiny Programme Committee should ensure awareness of each other's work programmes and consider whether there is any issue of duplication. The Scrutiny Programme Committee should consider relevant advice but has autonomy on decisions about the scrutiny work programme.

**Support:**

1) The Democratic Services Team shall provide the relevant support to the Policy Development Committees.

2) The Director, Head of Service, or nominated relevant Officer will provide work plan support and research and produce reports as appropriate.